



Interniaeth Ôl-radd â Thâl

Teitl y Project: Llwybr Treftadaeth Ystad Bodorgan

Rôl: Interniaeth Ymchwil Archifol Ôl-radd

Ysgol/adran: Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru (SYYC)/ Ysgol Hanes, Athroniaeth a Gwyddorau Cymdeithas

Enw'r person cyswllt yn yr ysgol/adran: Dr. Marc Collinson (m.d.collinson@bangor.ac.uk) a Dr. Shaun Evans (shaun.evans@bangor.ac.uk)

Cyfnod yr Interniaeth: Semester 1 (Hydref – Rhagfyr 2022)

Oriau: 160 awr i gyd

Tâl: @£12.43 yr awr (Y Cyflog Byw Gwirioneddol) = cyfanswm o £1,988.80, gan gynnwys lwfans gwyliau

Disgrifiad:

Cafodd Ystad Bodorgan (<https://www.bodorgan.com/>) yn ne-orllewin Ynys Môn grant gan Lywodraeth Cymru i agor llwybr troed newydd drwy ran o'r stad, a fydd yn cysylltu â Llwybr Arfordir Cymru. Bydd y gwaith o ddatblygu seilwaith y llwybr troed yn mynd rhagddo ochr yn ochr â rhaglen adfer cynefinoedd. Bydd y llwybr yn cynnwys nifer o nodweddion tirweddol pwysig, a rheini'n gysylltiedig â hanes cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd Ynys Môn. Mae'r project yn ymrwymo i rannu hanes y dirwedd hon gyda defnyddwyr y llwybr troed yn y dyfodol trwy osod arwyddion dehongli treftadol priodol ar hyd y llwybr. Mae Ystad Bodorgan yn cydweithio gyda Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru ym Mhrifysgol Bangor (<http://iswe.bangor.ac.uk/>) i gyflawni'r amcanion hynny.

Rôl yr Intern:

Un o'r agweddau ar hanes lleol yr hoffai'r prosiect ei rannu gyda defnyddwyr y llwybr troed yw effaith 'arbrawf Llanfeirian ganol yr ugeinfed ganrif. Roedd y fenter honno'n seiliedig ar syniadau'r Crynwr, Peter Scott a phrynwyd rhan o ystad Bodorgan yn orfodol i hwyluso arbrofion amaethyddol a garddwriaethol. Yr uchelgais oedd creu cymdeithas iwtopaidd a honno'n seiliedig ar ffermio ymgynhaliol. Parhaodd y fenter am oddeutu pymtheg mlynedd ond gadawodd effaith barhaol ar y dirwedd.

Ni chafodd hanes Llanfeirian erioed ei hymchwilio'n llawn. Bydd yr intern yn aelod allweddol o broject cydweithredol hynod i ddeall hanes ac etifeddiaeth yr arbrawf. Byddwch yn gweithio gyda Dr. Marc Collinson ac aelodau eraill o dîm y project. Byddwch yn treulio amser yn Swyddfa Ystad Bodorgan yn ymchwilio i'r archifau a'r cofnodion sy'n ymwneud â'r hanes. Eich amcan craidd fydd defnyddio'r ymchwil i lunio naratif cronolegol a dadansoddiad thematig o arbrawf Llanfeirian a'i effeithiau. Byddwch yn ei ysgrifennu ar ffurf blog, deunydd ar gyfer gwefan, adroddiad ymchwil neu allbwn arall, fel y penderfynno tîm y project.

Drwy gydol y project byddwch yn gweithredu fel cynrychiolydd pwysig i Brifysgol Bangor a Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru ym mhob cyswllt â phartneriaid allanol y project a rhanddeiliaid eraill.

Y Patrw m Gwaith Tebygol:

Bydd disgwyl i chi weithio ar y project am ddau ddiwrnod llawn yr wythnos am ddeg wythnos ym mis Hydref, Tachwedd a Rhagfyr. Bydd angen cytuno ymlaen llaw ynglŷn â'r oriau gwaith yn Swyddfa Ystad Bodorgan. Bydd disgwyl i chi fod yn bresennol mewn cyfarfod project rhagarweiniol ym Modorgan a chyfarfodydd rheolaidd i ddiweddarau pawb ynghylch y project i drafod pob cynnydd. Byddwch mewn cywsylltiad rheolaidd â Dr. Marc Collinson ac aelodau eraill o dîm y project.

Cynllun Gwaith Amlinellol:

Wythnosau 1-3 Paratoi ymchwil; hyfforddiant ar ymchwil archifol; arolwg cychwynnol o archifau Bodorgan; llunio naratif amlinellol Llanfeirian; nodi themâu ymchwil craidd.

Wythnosau 4-6: Dadansoddiad archifol dwys a hwnnw'n seiliedig ar themâu ymchwil craidd; drafftiau amlinellol o'r themâu ymchwil craidd.

Wythnosau 7-10: Ysgrifennu canfyddiadau'r ymchwil ar ffurf strwythuredig yn unol ag allbynnau'r project fel y'u nodwyd (e.e. deunydd i'r wefan, blog, adroddiad ymchwil) a mewnbwn gan oruchwylydd y project; dadansoddiad archifol parhaus lle bo angen.

Y Cyfleusterau/Yr amgylchedd gwaith:

Bydd y rhan fwyaf o'r ymchwil yn digwydd yn Swyddfa Ystad Bodorgan (LL62 5LP) ac ar rannau eraill o'r ystad. Rhaid medru teithio i Fodorgan ar gyfer yr interniaeth. Mae cyfarfodydd y project a'r gweithgareddau eraill yn debygol o gael eu cynnal ym Mhrifysgol Bangor.

Y manteision i'r intern:

Bydd y project yn rhoi nifer o sgiliau trosglwyddadwy i'r ymgeisydd llwyddiannus. Erbyn diwedd yr wythnos, byddwch wedi gwneud y canlynol:

- Chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gyflawni menter ymchwil a dehongli treftadaeth, a hynny'n gysylltiedig â phroject arloesol a ariennir gan Lywodraeth Cymru;
- Profiad o weithio fel rhan o dîm project cydweithredol a thraws-sectorol;
- Gwell sgiliau o ran gwaith tîm a chyfathrebu;
- Datblygu sgiliau ymchwilio a dadansoddi;
- Dysgu am hanes cymdeithasol a diwylliannol Ynys Môn yn yr ugeinfed ganrif;
- Ysgrifennu a chyflwyno allbwn ysgrifenedig (blog, deunydd i'r wefan, adroddiad ymchwil ac yn y blaen);
- Datblygu galluedd ym meysydd gweithio'n annibynnol, trefnu baich gwaith a rheoli amser, cyfrifoldeb a menter.

Y Gofynion Personol:

<u>Y Meini Prawf</u>	<u>Hanfodol/Dymunol</u>
<u>1.</u> Diddordeb amlwg yn hanes cymdeithasol, diwylliannol, amaethyddol, tirweddol neu amgylcheddol Ynys Môn neu Gymru	<u>Hanfodol</u>
<u>2.</u> Sgiliau ymchwilio a dadansoddi cryf, gan gynnwys gallu adnabod, trin a threfnu gwybodaeth gymhleth o ffynonellau ar-lein, cyhoeddedig ac archifol	<u>Hanfodol</u>

3. Sgiliau cyfathrebu a rhyngpersonol rhagorol, gan gynnwys gallu gweithio a chydweithio â'r tîm goruchwylio a rhanddeiliaid eraill y project	<u>Hanfodol</u>
4. Gallu ysgrifennu'n gryno a chyflwyno canfyddiadau ymchwil mewn fformat trwyadl a diddorol	<u>Hanfodol</u>
5. Sgiliau rhagorol o ran rheoli amser a baich gwaith, a gallu gweithio'n annibynnol i gyflawni'r gwaith yn ôl y terfynau amser penodedig	<u>Hanfodol</u>
6. Ymrwymiad amlwg i ddatblygu gyrfa mewn sector a gynrychiolir gan y project	<u>Dymunol</u>
7. Diddordebau/arbenigedd ymchwil sy'n gysylltiedig â'r project	<u>Dymunol</u>

Cymhwysedd:

I wneud cais am yr interniaeth hon rhaid i chi fod yn fyfyrwr ôl-radd neu ymchwilydd doethurol cofrestredig ym Mhrifysgol Bangor am y cyfnod Hydref-Rhagfyr 2022.

Sut i wneud cais:

Anfonwch ddatganiad personol 1 dudalen sy'n amlinellu eich addasrwydd ar gyfer y rôl, gan gyfeirio'n benodol at y manylion personol, ynghyd â CV 1-2 dudalen at: iswe@bangor.ac.uk erbyn dydd Gwener, 9 Medi 2022.

Caiff ymgeiswyr y rhestr fer eu gwahodd i gyfweiliad ar gyfer yr interniaeth yn ddiweddarach ym mis Medi.

Gwybodaeth bellach:

I ofyn cwestiynau ychwanegol neu i drafod y rôl yn fwy manwl, cysylltwch â Dr. Marc Collinson (m.d.collinson@bangor.ac.uk) a/neu Dr. Shaun Evans (shaun.evans@bangor.ac.uk).